## CYNGOR DINAS CAERDYDD

## MINUTES

## CYFARFOD Y CABINET: 6/07/2017

| | |
|---|---|
| Aelodau Cabinet yn Bresennol: | Councillor Huw Thomas (Leader)<br>Councillor Peter Bradbury<br>Councillor Susan Elsmore<br>Councillor Russell Goodway<br>Councillor Graham Hinchey<br>Councillor Sarah Merry<br>Councillor Michael Michael<br>Councillor Lynda Thorne<br>Councillor Chris Weaver<br>Councillor Caro Wild |
| Gwylwyr: | Councillor Joe Boyle<br>Councillor Adrian Robson |
| Swyddogion: | Paul Orders, Chief Executive<br>Christine Salter, Section 151 Officer<br>Davina Fiore, Monitoring Officer<br>Joanne Watkins, Cabinet Office |

### 1 COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 MAWRTH 2017

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2017.

### 2 UCHELGAIS PRIFDDINAS – DATGANIAD O FLAENORIAETHAU'R WEINYDDIAETH

Ystyriodd y Cabinet yr 'Uchelgais Prifddinas' a nododd rhaglen bolisi'r Weinyddiaeth ar gyfer y tymor cyngor nesaf. Nododd y ddogfen bedair maes blaenoriaeth, Gweithio dros Gaerdydd, Gweithio dros Gymru, Gweithio dros y Dyfodol a Gweithio dros Wasanaethau Cyhoeddus a byddai'r rhain yn ffurfio'r sail i ddatblygu'r cynllun corfforaethol, strategaeth y gyllideb a byddai'n adnewyddu Rhaglen Datblygu Sefydliadol y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:** y caiff

1) ‘Uchelgais Prifddinas’ ei gymeradwyo’n ddatganiad o flaenoriaethau’r weinyddiaeth, ac

2) ‘Uchelgais Prifddinas’ ei gyflwyno gerbron y Cyngor Llawn ar gyfer ei gofnodi.

## 3 PENODI CYNORTHWYWYR I AELODAU CABINET A HYRWYDDWYR AELODAU CABINET

Ystyriodd y Cabinet p’un ai i gymeradwyo penodiad y Cynghorydd Dilwar Ali, y Cynghorydd Burke-Davies, y Cynghorydd Henshaw a'r Cynghorydd Lister yn Gynorthwywyr Cabinet. Cynigiwyd yn ogystal bod rolau Hyrwyddwyr Aelodau Cabinet.

**PENDERFYNWYD:**

1. y caiff penodiadau pedwar Cynorthwy-ydd i Aelodau Cabinet (neu Gynorthwywyr Cabinet) fel y nodir ym mharagraff 8 o'r adroddiad hwn eu cymeradwyo.

2. y cytunir i ymgorffori a phrif-ffrydio'r rolau Hyrwyddwyr Aelodau neu Aelodau Arwain, fel y'u nodir ym mharagraff 12 o’r adroddiad hwn, yng nghyfrifoldebau perthnasol portffolio’r Cabinet, a rhoi rolau Hyrwyddwyr Aelodau i naill ai aelodau gweithredol neu aelodau nad ydynt yn weithredol, ar gyfer eu penodi gan y Cyngor yn unol â'r hyn a dybir yn briodol; a

3. y gofynnir i Bwyllgor y Cyfansoddiad ystyried ymgorffori darpariaeth ar gyfer Hyrwyddwyr Aelodau yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

## 4 DERBYN ADRODDIAD Y PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC, SEF ‘ANFFURFIO ORGANAU CENHEDLU BENYWOD’

Cyflwynodd Cadeirydd Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc, y Cynghorydd Lee Bridgeman, adroddiad pwyllgor craffu Plant a Phobl Ifanc o’r enw Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod. Wedi’u cynnwys yn yr adroddiad oedd 20 o ganfyddiadau allweddol a 4 argymhelliad, a chafodd dau o'r rhain eu cyfarwyddo yn y Cabinet. Cafodd yr argymhellion oedd yn weddill eu cyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron, BAWSO a Phwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifainc.

**PENDERFYNWYD:** derbyn yr adroddiad a pharatoi ymateb i’w ystyried gan y Cabinet erbyn Hydref 2017 os bydd modd.

## 5 DERBYN ADRODDIAD Y PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC, SEF ‘AMSER TYMOR YSGOLION'

Cyflwynodd y Cynghorydd Bridgeman, Cadeirydd Pwyllgor Plant a Phobl Ifainc, Adroddiad o’r enw, ‘Amseroedd Tymor Ysgol' a oedd yn ymateb i benderfyniad y

Cyngor ar leihau hyd toriad yr haf er mwyn ei gwneud yn bosibl trefnu wythnos arall o wyliau ar adeg arall yng nghalendr yr ysgol. Gwnaeth y Pwyllgor Craffu un argymhelliad i'r Cabinet.

**PENDERFYNWYD:** derbyn yr adroddiad a pharatoi ymateb i'w ystyried gan y Cabinet erbyn Hydref 2017 os bydd modd.

## 6 GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR – ADOLYGU CYDGYTUNDEB GWAITH

Ystyriwyd adroddiad sy'n ystyried newidiadau i'r Cydgytundeb Gweithio rhwng cynghorau partner ar gyfer y ddarpariaeth o Wasanaethau Rheoliadol.

**PENDERFYNWYD:**

1. cymeradwyo'r newidiadau a gynigiwyd i'r Cydgytundeb Gweithio rhwng y cynghorau partner ar gyfer y ddarpariaeth o Wasanaethau Rheoliadol a chymeradwyo bod y Cyngor yn eu cymeradwyo.

2. awdurdodi Uwch Swyddog Cyfrifol y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir i gymeradwyo newidiadau gweinyddol i'r Cytundeb Cydweithio cyn belled â nad oes unrhyw estyniad o ran dirprwyo i'r Gwasanaeth a Rennir, na goblygiadau ariannol ychwanegol.

## 7 CYNLLUNIO TREFNIADAETH YSGOLION: DARPARU RHAGOR O LEOEDD CYNRADD SAESNEG YN YSGOL GYNRADD RADUR.

*Mae'r penderfyniad wedi ei ardystio gan y Swyddog Monitro yn un brys oherwydd gallai unrhyw oedi y byddai'r broses galw i mewn yn debygol o'i beri ragfarnu'r Cyngor ac mae er budd y cyhoedd dan adran 13 o'r Rheolau Gweithdrefnau Craffu yn un brys ac nid yw'r weithdrefn galw i mewn yn berthnasol iddo. Ymgynghorwyd â Chadeirydd Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar y mater hwn ac mae wedi cytuno y dylid ardystio'r adroddiad hwn yn un brys.*

Ystyriodd y Cabinet adroddiad a oedd yn amlinellu'r ymateb i'r hysbysiad statudol i gynyddu nifer uchaf Ysgol Gynradd Radur o 376 o leoedd i 420 o leoedd o Fedi 2017. Cynghorwyd y Cabinet y bu un gwrthwynebiad, ac roedd yr adroddiad yn cynnwys ymateb cadarn i'r gwrthwynebiad hwn.

**PENDERFYNWYD:**

1. cymeradwyo'r cynigion a nodir ym mharagraff 1 heb eu newid.

2. awdurdodi swyddogion i gymryd camau priodol i weithredu'r cynigion a nodir ym mharagraff 1.

3. awdurdodi swyddogion i gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb yr Awdurdod i'r gwrthwynebiadau hynny (y cyfeirir ato fel "Adroddiad Gwrthwynebiadau") ymhen 7 diwrnod cyn penderfynu ar y cynnig;

4. awdurdodi swyddogion i gyhoeddi'r penderfyniad ymhen 7 diwrnod ar ôl penderfynu ar y cynnig.

5. y dirprwyir gwaith cymeradwyo unrhyw gontractau angenrheidiol i'r Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, wedi ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a Swyddog Adran 151, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Aelodau Cabinet ar ran Gwasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad ac Addysg a Sgiliau.

## 8 ALLDRO 2016/17

Ystyriodd y Cabinet y sefyllfa o ran alldro ar gyfer y flwyddyn ariannol a oedd yn dod i ben ym Mawrth 2017. Nodwyd bod y Cyngor wedi cynnal ei wariant ac roedd ei gyllideb gyffredinol net mewn sefyllfa cytbwys.

**PENDERFYNWYD:**

1. y dylid cymeradwyo'r adroddiad a'r camau a wnaed mewn perthynas â chyfrifon y Cyngor yn 2016/17.

2. y dylid nodi y bydd yr adroddiad yn ffurfio Atodlen i adroddiad Datganiadau Ariannol y Cyngor a fydd yn cael ei ystyried yn nghyfarfod y Cyngor ym mis Medi 2017.

## 9 ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER 4

Cafodd y Cyngor adroddiad perfformiad Chwarter 4 (mis Hydref tan fis Rhagfyr) blwyddyn ariannol 2016-17. Roedd yr adroddiad yn cynnig manylion am gynnydd ar flaenoriaethau y cynllun Cynllun Corfforaethol a gweithredoedd gwella ac roedd yn cynnwys sylwebaeth ar gyflawniadau, heriau a ffactorau lliniarol y Gyfarwyddiaeth.

**PENDERFYNWYD:** y nodir y sefyllfa bresennol o ran perfformiad, sut mae cyflawni ymrwymiadau a blaenoriaethau fel yn Chwarter 4, a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â heriau i'r Cyngor.